

ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Cefndir

Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 y Cydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2020. Mae'n cynnwys pedair prif ran, ac un ohonynt yn gosod dyletswydd statudol o onestrwydd ar gyrrff y GIG yng Nghymru. Bwriedir dod â'r ddyletswydd i rym o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Mae'r ddyletswydd yn hybu datblygu ymhellach ddiwylliant agored a gonest ar draws GIG Cymru sy'n sbarduno dysgu a gwelliannau i wasanaethau. Mae'n adeiladu ar yr egwyddor o fod yn agored sydd wrth galon Gweithio i Wella, y broses o ddelio â phryderon yn GIG Cymru.

Mae gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddyletswydd broffesiynol o onestrwydd fel *unigolion*, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest gyda chleifion os bu methiannau yn eu gofal. Mae'r ddyletswydd *sefydliadol* yn ategu dyletswydd yr unigolyn.

Mae'r ddyletswydd yn adeiladu ar waith i ddatblygu diwylliant o fod yn agored yng Nghymru a bydd yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau i ddilyn gweithdrefn benodol, a ategir gan ganllawiau statudol.

Y TYMOR HIR

Effaith hirdymor gadarnhaol i'r ddyletswydd fydd gwella ymhellach y diwylliant agored a gonest, gan adeiladu ar ddatblygiadau blaenorol fel y gwelwyd mewn ymchwil gan yr Athro Graham Martin^{1, 2} sy'n dangos bod y ddyletswydd wedi bod yn effeithiol o ran bod yn fwy agored yn NHS Lloegr. Roedd gwerthusiad gan Lywodraeth yr Alban yn 2020³ yn cydnabod cynnydd.

¹ Martin, G. P., Chew, S. a Dixon-Woods, M. (2019) [Senior stakeholder views on policies to foster a culture of openness in the English National Health Service: a qualitative interview study \(sagepub.com\)](#). *Journal of the Royal Society of Medicine*, Cyfrol 112(4) 153-159

² Martin, G., Chew, S. a McCarthy, I. (2022) [Encouraging openness in health care: Policy and practice implications of a mixed-methods study in the English National Health Service - Graham Martin, Sarah Chew, Imelda McCarthy, Jeremy Dawson, Mary Dixon-Woods, 2023 \(sagepub.com\)](#). *Journal of Health services Research & Policy*, Cyfrol 28, rhifyn 1.

³ Jamieson, M. K (2020) [Organisational duty of candour procedure: first year review - gov.scot \(www.gov.scot\)](#)

Mae Biermann a Boothman (2006)⁴ yn nodi bod datgelu'n gysylltiedig â gwella diogelwch cleifion, a fydd yn annog dysgu ac a allai fod yn gymhelliad i leihau digwyddiadau.

Bydd y ddyletswydd yn cefnogi ac yn grymuso staff i fod yn agored gyda chleifion, gan gryfhau'r berthynas rhwng cyrff GIG, eu cleifion a'u cymunedau ac yn arwain at well profiad i gleifion.

Gallai COVID-19, tanariannu'r GIG, y gweithlu a'r argyfyngau costau byw ychwanegu pwysau ar y GIG ac arwain at restrau aros hirach. Lliniarwyd yr effaith hon drwy gydnabod mai dim ond niwed annisgwyl neu anfwriadol ar restrau aros a allai sbarduno'r ddyletswydd.

ATAL

Mae'r ddyletswydd yn cyd-fynd â gwerth craidd 'Cymru Iachach', sef rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth arall. Ei nod yw creu proses gyson i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mewn ffordd agored, onest, a chyfartal, tra'n hyrwyddo dysgu a gwella er mwyn atal pethau rhag digwydd eto.

Ymchwilir i ddigwyddiadau'n drwy'r broses Gweithio i Wella, drwy sicrhau dysgu a gwella, a thrwy dorri'r cylch negyddol o iechyd gwael a achosir gan niwed.

Bydd dysgu sy'n cael ei rannu o fewn y sefydliad ac yn ehangach yn gwella gwasanaethau, yn atal pethau rhag digwydd eto, ac yn gwella diogelwch cleifion ar draws Cymru. Dan y ddyletswydd, bydd rhaid i gyrff GIG adrodd yn flynyddol ar gydymffurfio â'r ddyletswydd a chyhoeddi eu hadroddiadau.

INTEGREIDDIO

Ystyriwyd yr amcanion llesiant yn Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026. Mae'r cynnig yn bodloni'r amcan i ddarparu *gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel*.

Mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r nodau ymgysylltu a thryloywder yn 'Cymru Fwy Cyfartal' drwy wrando ar gleifion a gweithio gyda nhw i sicrhau dysgu.

Bydd y cynnig o fudd i bobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n fwy tebygol gael mynediad at ofal iechyd ac sydd â'r mwyaf i'w ennill o'r ddyletswydd.

CYDWEITHIO AC YMWNEUD

Datblygwyd y ddyletswydd gonestrwydd gyda rhanddeiliaid ar draws GIG Cymru a'r DU. Fe wnaeth cynrychiolwyr o rwydweithiau proffesiynol ar draws GIG Cymru ddarparu cyngor, cymorth, gan hysbysu a dylanwadu ar eu rhwydweithiau.

⁴ Biermann, J. S., a Boothman, R. (2006). [There Is Another Approach to Medical Malpractice Disputes | JCO Oncology Practice \(ascopubs.org\)](#), cyfrol 2(4), 148

Gwnaed ymdrech i ymgysylltu â chleifion, eu cynrychiolwyr, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, plant a phobl ifanc a grwpiau anabledd dysgu trwy weithdai rhithwir.

Roedd yr holl randdeiliaid yn glir yn eu cefnogaeth i ddyletswydd sefydliadol o onestrwydd ac i hyrwyddo'r egwyddorion o fod yn agored a thryloyw.

EFFAITH

Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar wella cyfathrebu gonest a thryloyw, ac yn y tymor hir yn creu mwy o hyder yng ngwasanaethau'r GIG. Mae defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd eisiau cael gwybod pam fydd digwyddiad diogelwch cleifion wedi effeithio arny'n nhw, O'Connor et al (2010) ⁵.

Bydd y ddyletswydd yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac yn onest, gan ddysgu a gwella bob amser, a gallai hyn arwain at leihau nifer y digwyddiadau a llai o gwynion ac ymgyfreitha, Holden, J (2009) ⁶ a Fields, A et al (2021)⁷.

Effaith tymor byr negyddol a godwyd gan randdeiliaid oedd cynnydd posib yn y llwyth gwaith, yn enwedig yn y maes gofal sylfaenol ond y teimlad yw y bydd hyn yn lleihau unwaith y bydd dealltwriaeth a hyder yn y broses. Mae modd cyflwyno gwrth-ddadl drwy gyfeirio at ymchwil y Partnership for Responsive Policy Analysis and Research (2018)⁸.

COSTAU AC ARBEDION

Mae'r costau'n ymwneud â gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd yn GIG Cymru. Bydd angen creu ymwybyddiaeth gyffredinol o'r ddyletswydd ymysg y cyhoedd a staff, a gwneir hyn drwy gyfathrebu. Bydd gofyn am hyfforddiant ar wahanol lefelau gan gynnwys hyfforddiant pwrpasol ar-lein ac wyneb yn wyneb ar y ddyletswydd gonestrwydd i'r holl staff. Cafodd costau o £153k eu dyrannu fel costau uniongyrchol ar gyfer 2022-23 a 2023-24.

Gall fod arbedion yn y tymor hir drwy lai o gwynion i'w prosesu, llai o iawn a llai o ymgyfreitha.

MECANWAITH

Cynigir deddfwriaeth ac mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau.

⁵ O'Connor, E., Coates, H.M., Yardley, I.E., Wu, A.W. (2020) [Disclosure of patient safety incidents: a comprehensive review | International Journal for Quality in Health Care | Oxford Academic \(oup.com\)](#) Cyfrol 122, Rhifyn 5, tt371-379.

⁶ Holden, J. (2009) [Saying sorry is not the same as admitting legal liability | The BMJ](#), 338

⁷ Fields, A., Mello, M., Kachalia, A. (2021) [Apology laws and malpractice liability: what have we learned? | BMJ Quality & Safety](#)

⁸ Birks, Y., Aspinal, F., Bloor, K. (2018) [UnderstandingDriversOfLitigationInHealthServices.pdf \(york.ac.uk\)](#)

